

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023

Tachwedd 2023



1. Cefndir

- 1.** Gosododd Llywodraeth y DU ddrafft o Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023 (y Rheoliadau)¹ gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023.
- 2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod yn rhaid i aelod o'r llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, y bydd Gweinidogion y DU yn ei osod gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 3.** Ar 24 Hydref 2023, gosododd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm)² gerbron y Senedd ar gyfer y Rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.
- 4.** Ysgrifennodd y Gweinidog i'n hysbysu ni o'r Memorandwm ar 25 Hydref 2023, a chadarnhaodd y cafodd ei osod y tu allan i'r terfyn amser tri diwrnod a ragnodir gan Reol Sefydlog 30A "am fod angen gwirio'r geiriad cymhleth a manwl yn yr offeryn".³

2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

- 5.** Amcan y Rheoliadau yw diweddarau cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol a wnaed o 'cyfraith yr UE a ddargedwir' i 'cyfraith a gymathwyd'.
- 6.** Mae'r Memorandwm yn datgan fel a ganlyn:

"Mae hyn yn adlewyrchu adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf REUL"), sy'n darparu y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir ("REUL") (a themau cysylltiedig) sy'n parhau mewn grym yn cael ei galw'n "cyfraith

¹ Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023 (drafft)

² Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023

³ Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 25 Hydref 2023

a gymathwyd” (a thermau cysylltiedig), bob amser, ar ôl diwedd 2023.⁴

7. Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod y Rheoliadau:

“...yn dileu cyfeiriadau at hawliau a gydnabyddir ac sydd ar gael mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a thermau fel “egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir”, oherwydd y newidiadau a wneir gan Ddeddf REUL i ddileu'r nodweddion ar gyfer dehongli cyfraith yr UE sy'n gymwys i REUL, ar ôl diwedd 2023.”⁵

8. Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm yn ymwneud â hwy yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a daw'r darpariaethau i rym ar 1 Ionawr 2024.

9. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Rheoliadau'n diwygio darnau amrywiol o ddeddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig.⁶ Er enghraifft, mae'r Rheoliadau'n newid cyfeiriadau at 'cyfraith yr UE a ddargedwir' i 'cyfraith a gymathwyd' yn y canlynol:

- *Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;*
- *Deddf Lles Anifeiliaid 2006;*
- *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.*

10. Ym mharagraff 13 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi pam y mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hyn, gan ddatgan y canlynol.

“...er mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Cymru mewn materion lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill pan fo rhesymeg glir dros wneud hynny. Mân newidiadau gweithredol a chanlyniadol yw'r diwygiadau yn bennaf, sy'n deillio o newidiadau terminoleg... Felly, fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn yr Offeryn

⁴Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 7

⁵ Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraff 8

⁶ Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 11

hwn gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru.”⁷

3. Trafodaeth y Pwyllgor

- 11.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd 2023.⁸
- 12.** Yn dilyn ein trafodaeth o'r Memorandwm, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 15 Tachwedd 2023.⁹ Ymatebodd y Gweinidog ar 22 Tachwedd 2023.¹⁰
- 13.** Ar 27 Tachwedd 2023, gwnaethom drafod ymateb y Gweinidog, a chytuno ar ein hadroddiad.

Ein barn ni

- 14.** Rydym yn cydnabod esboniad y Gweinidog am yr oedi cyn cyflwyno'r Memorandwm mewn perthynas â'r Rheoliadau.
- 15.** Nodwn y gosododd Llywodraeth Cymru ei set ei hun o Reoliadau i'w cymeradwyo gan y Senedd i newid cyfeiriadau, mewn deddfwriaeth bresennol, o “cyfraith yr UE a ddargedwir” i “cyfraith a gymathwyd”.¹¹ Ceisiwyd eglurhad gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r mater hwn. Yn benodol, gwnaethom ofyn y canlynol:
 - a gafodd y dull a fabwysiadwyd i ddefnyddio Offeryn Statudol Cymreig ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth a wneir gan y Senedd a Gweinidogion Cymru, wrth gynnig defnyddio Offeryn Statudol y DU ar gyfer newidiadau i Ddeddfau gan Senedd y DU;
 - pam nad ystyriwyd bod un Offeryn Statudol Cymreig yn briodol y tro hwn.

- 16.** Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

⁷Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 13

⁸ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 13 Tachwedd 2023

⁹ [Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 15 Tachwedd 2023](#)

¹⁰ [Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 22 Tachwedd 2023](#)

¹¹ [Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) 2023 \(Diwygiadau Canlyniadol\) \(Cymru\) 2023 \(drafft\)](#)

“Gallaf gadarnhau ein bod wedi mabwysiadu'r dull rydych chi'n ei nodi uchod. Digwyddodd rhoi pwerau cydamserol ar Weinidogion Cymru yn hwyr ym mhroses Llywodraeth y DU ar gyfer diweddarau deddfwriaeth. Nid oedd yn ymarferol, yn effeithlon nac yn hawdd ei gyflawni yn yr amser a oedd ar gael, i ofyn i Gymru gael ei thynnu o gwmpas Offeryn Statudol Llywodraeth y DU sydd eisoes yn datblygu'n dda fel y gallem gyflwyno Offeryn Statudol i gwmpasu holl ddeddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i faterion datganoledig yng Nghymru.”¹²

17. Rydym yn nodi ymateb y Gweinidog ac yn siomedig o glywed am yr ymgysylltiad gwael ymddangosiadol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â diweddarau deddfwriaeth o ganlyniad i *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cyfrannu i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gydsynio i gynnwys darpariaethau datganoledig yn yr offeryn hwn.

18. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ddarostyngedig i femoranda cydsyniad offeryn statudol;¹³ argymhellion sydd wedi'u gwrthod.¹⁴ Felly, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn y Memorandwm.

19. Yn ei hymateb, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno ar gyfer dadl ar 12 Rhagfyr 2023.¹⁵

Casgliad 1. Rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog y bydd cynnig yn cael ei gyflwyno o dan Reol Sefydlog 30A.10 i geisio cytundeb y Senedd i ddarpariaeth berthnasol gael ei chynnwys yn Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023.

¹² Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 22 Tachwedd 2023

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Gorchymyn Newid Hinsawdd \(Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu\) 2022](#), Tachwedd 2022; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Planhigion ac Iechyd Planhigion \(Diwygio\) 2022](#), Rhagfyr 2022

¹⁴ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 17 Ionawr 2023](#), [Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Ionawr 2023](#)

¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 22 Tachwedd 2023
